

SL(6)503 – Gorchymyn Rheoli a Thrwyddedu Pysgota am Gocos (Ardal Benodedig) (Cymru) 2024

Cefndir a diben

Mae'r Gorchymyn hwn yn cyflwyno mesurau rheoli a chyfundrefn drwyddedu ar gyfer rheoli'r ffordd y manteisir ar gocos o welyau cocos o fewn yr ardal benodedig yng Nghymru.

Mae'r Gorchymyn, sy'n gymwys o ran Cymru, yn diwygio neu'n dirymu ac yn disodli Is-ddeddfau cyn-Bwyllgor Pysgodfeydd Môr Gogledd-orllewin Lloegr a Gogledd Cymru a chyn-Bwyllgor Pysgodfeydd Môr De Cymru, a darpariaethau Gorchymyn Cocos a Chregyn Gleision (Ardal Benodedig) (Cymru) 2011 i'r graddau y maent yn rheoleiddio pysgota am gocos.

Diddymwyd y Pwyllgorau Pysgodfeydd Môr o ran Cymru ar 1 Ebrill 2010 pan ddiddymwyd Deddf Rheoleiddio Pysgodfeydd Môr 1966 gan adran 187 o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009.

Mae Is-ddeddfau cyn-Bwyllgor Pysgodfeydd Môr Gogledd-orllewin Lloegr a Gogledd Cymru a chyn-Bwyllgor Pysgodfeydd Môr De Cymru wedi bod mewn grym ers 1 Ebrill 2010 fel pe baent wedi'u gwneud gan Weinidogion Cymru mewn offeryn statudol yn rhinwedd erthygl 13(1) a (3) o Orchymyn Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 (Cychwyn Rhif 1, Darpariaethau Canlyniadol, Darpariaethau Trosiannol a Darpariaethau Arbed) (Cymru a Lloegr) 2010 ac Atodlenni 3 a 4 iddo.

Mae Rhan 1 o'r Gorchymyn hwn (erthyglau 1 a 2) yn ymdrin â materion rhagarweiniol.

Mae Rhan 2 o'r Gorchymyn hwn (erthyglau 3 i 7) yn gwneud darpariaeth ar gyfer rheoli gwelyau cocos o fewn yr ardal benodedig. Gwaherddir pysgota am gocos a'u cymryd o welyau cocos sydd ar gau a gwneud hynny heb drwydded o dan erthygl 3. Mae erthyglau 5 i 7 yn darparu ar gyfer asesu ac agor a chau gwelyau cocos o fewn yr ardal benodedig.

Disgrifir yr ardal benodedig yn Atodlen 1.

Mae Rhan 3 o'r Gorchymyn hwn (erthyglau 8 i 13 ac Atodlen 2) yn gwneud darpariaeth ar gyfer cyfundrefn drwyddedu newydd ar gyfer pysgota am gocos sy'n nodi'r gofyniad am drwydded i bysgota ac yn gwneud darpariaeth ynghylch cymhwystra, hyd trwydded a ffioedd. Mae erthygl 9 ac Atodlen 2 yn darparu ar gyfer gosod amodau ar drwyddedau.

Mae Rhan 4 o'r Gorchymyn hwn (erthyglau 14 i 18 ac Atodlen 3) yn gwneud darpariaeth ar gyfer esemptiadau rhag darpariaethau'r Gorchymyn hwn, ailddodi cocos a dirymu a diwygio Is-ddeddfau amrywiol cyn-Bwyllgor Pysgodfeydd Môr Gogledd-orllewin Lloegr a Gogledd Cymru a chyn-Bwyllgor Pysgodfeydd Môr De Cymru a diwygio Gorchymyn Cocos a Chregyn Gleision (Ardal Benodedig) (Cymru) 2011.



Y weithdrefn

Negyddol

Gwnaed y Gorchymyn gan Weinidogion Cymru cyn iddo gael ei osod gerbron y Senedd. Caiff y Senedd ddirymu'r Gorchymyn o fewn 40 niwrnod (ac eithrio unrhyw ddyddiau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu neu (ii) mewn cyfnod o doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y'i gosodwyd gerbron y Senedd.

Materion technegol: craffu

Nodwyd yr un deg saith pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

1. Rheol Sefydlog 21.2(vii) – ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr testun Cymraeg a thestun Saesneg yr offeryn neu'r drafft.

Yn erthygl 2, mae gwahaniaeth rhwng y testun Cymraeg a'r testun Saesneg. Yn y testun Cymraeg, mae diffiniad ychwanegol "manteisio ar" ("exploitation") nad yw i'w gael yn y testun Saesneg. Ni ddefnyddir y term yn y Gorchymyn hwn; felly, ymddengys mai'r testun Saesneg sy'n gywir.

2. Rheol Sefydlog 21.2(vii) – ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr testun Cymraeg a thestun Saesneg yr offeryn neu'r drafft.

Yn erthygl 2, yn y testun Saesneg, nid yw'r diffiniad o "cockles" wedi'i restru yn ôl trefn yr wyddor yn ôl y confensiwn. Dylai ymddangos ar ôl y diffiniad o "cockle bed" yn nhestun Saesneg y Gorchymyn hwn.

3. Rheol Sefydlog 21.2(vii) – ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr testun Cymraeg a thestun Saesneg yr offeryn neu'r drafft.

Yn erthygl 2, yn y diffiniad o "gornifer cocos y gellir eu cynaeafu", mae sawl gwahaniaeth rhwng y testun Cymraeg a'r testun Saesneg fel a ganlyn—

- a) yn y testun Saesneg, mae'r diffiniad Cymraeg cyfatebol sydd fel arfer yn ymddangos mewn cromfachau wedyn yn anghyflawn oherwydd bod y gair "cynaeafu" ar goll ynghyd â'r cromfachau cau; dylai hefyd gael ei fformatio mewn testun italig yn hytrach na ffont arferol;
- b) yn ogystal, yn y testun Cymraeg, mae'n datgan mai "'gornifer cocos y gellir eu cynaeafu" ... **yw pwysau'r cocos byw y gellir** pysgota amdanynt neu eu cymryd...". Felly, mae geiriau ychwanegol yn y testun Cymraeg nad ydynt i'w cael yn nhestun Saesneg y diffiniad.

4. Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol



Yn erthygl 2, yn y testun Saesneg, nid yw'r diffiniad o "Wales" wedi'i restru yn ôl trefn yr wyddor yn ôl y confensiwn. Dylai ymddangos ar ôl y diffiniad o "vessel".

Nodir y diffiniad mewn dyfynodau sengl yn hytrach na dyfynodau dwbl, ac mae'r geiriau "of the" ar goll o'r cyfeiriad at "section 158(1) **of the** Government of Wales Act 2006" yn y testun Saesneg.

Yn olaf, ymddengys mai dim ond ar un achlysur y mae'r term diffiniedig hwn yn cael ei ddefnyddio, yn y ddarpariaeth gymhwyso a geir yn erthygl 1(2) o'r Gorchymyn hwn. Os mai dim ond ar un achlysur y defnyddir term diffiniedig mewn offeryn statudol, dylai ymddangos yn yr un ddarpariaeth a chael ei ddiffinio ar gyfer y ddarpariaeth honno yn unig - gweler Drafftio Deddfau i Gymru 4.3(1).

5. Rheol Sefydlog 21.2(vii) – ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr testun Cymraeg a thestun Saesneg yr offeryn neu'r drafft.

Yn erthygl 8(3), mae gwahaniaeth rhwng y testun Cymraeg a'r testun Saesneg. Yn y testun Saesneg, mae'r term "the permit period" wedi'i ddefnyddio, yn hytrach na'r term diffiniedig "a single permit period" a geir yn erthygl 2.

Yn ogystal, mae'r testun Cymraeg yn wahanol i'r testun Saesneg yn y ddarpariaeth hon gan ei fod yn datgan, "rhwng 1 Mehefin mewn blwyddyn galendr a diwedd 31 Mai y flwyddyn ganlynol" yn hytrach nag "yn ystod cyfnod y drwydded".

6. Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol

Yn erthygl 9(1)(b), defnyddir y term "gwely cocos penodedig" ond nid yw wedi'i ddiffinio ac ni roddwyd ystyr iddo gan erthygl 2 o'r Gorchymyn. Y term a ddiffinnir yn erthygl 2 yw "gwely cocos" sydd i'w gael o fewn yr ardal benodedig a ddisgrifir gan Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn.

7. Rheol Sefydlog 21.2(vii) – ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr testun Cymraeg a thestun Saesneg yr offeryn neu'r drafft.

Yn erthygl 10(1)(a), mae gwahaniaeth rhwng y testun Cymraeg a'r testun Saesneg. Yn y testun Saesneg, mae'n nodi "are 16 years of age or over" ond mae'r testun Cymraeg yn cynnwys rhai geiriau ychwanegol i nodi "os yw'n 16 oed neu'n hŷn ar yr adeg pan ddyroddir y drwydded".

8. Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol

Yn erthygl 10(2), yn y diffiniad o "trosedd berthnasol" ar gyfer yr erthygl honno, yn is-baragraff (c)(i), mae'n datgan bod trosedd berthnasol yn cynnwys trosedd o dan "adran 139 (**torri gorchymynion o dan adrannau 134, 134A, 134B neu 136**)". Fodd bynnag, mae'r geiriau mewn cromfachau yn awgrymu bod trosedd o dan adran 139 o Ddeddf 2009 wedi'i chyfyngu i dorri gorchymynion a wneir o dan yr adrannau rhestredig hynny o Ddeddf 2009.



Fodd bynnag, mae troseddau o dan adran 139 yn cynnwys torri is-ddeddfau a gorchmynion a wneir o dan adrannau eraill o Ddeddf 2009. Felly, gallai'r geiriau mewn cromfachau fod yn gamarweiniol ac yn ddryslyd i'r darllenydd gan nad yw'n glir a oes unrhyw fwriad i gyfyngu ar y troseddau perthnasol o dan adran 139 o Ddeddf 2009 ar gyfer erthygl 10 o'r Gorchymyn hwn.

9. Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol

Yn erthygl 12(1)(c) o'r Gorchymyn hwn, a pharagraff 5 o Atodlen 2 iddo, defnyddir y termau "cyfnod trwydded" ac "y cyfnod trwydded". Ond mae'r term wedi'i ddiffinio yn erthygl 2 fel "un cyfnod trwydded", a ddefnyddir mewn rhannau eraill o'r Gorchymyn hwn.

10. Rheol Sefydlog 21.2(vii) – ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr testun Cymraeg a thestun Saesneg yr offeryn neu'r drafft.

Yn Atodlen 1, ym mharagraff 1(1)(c), mae gwahaniaeth rhwng y testun Cymraeg a'r testun Saesneg. Mae'r testun Saesneg yn nodi "High Water Mark or Ordinary Tides", ond mae'r testun Cymraeg yn nodi "Marc Penllanw Llanwau Cyffredin".

11. Rheol Sefydlog 21.2(vii) – ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr testun Cymraeg a thestun Saesneg yr offeryn neu'r drafft.

Yn Atodlen 2, ym mharagraff 7, yn y testun Cymraeg, mae'r gair "deemed" wedi'i fynegi fel "ystyrir". Mae Geirfa Uned Cyfieithu Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru wedi safoni "barnu" fel y gair a argymhellir ar gyfer "deem" yn nhestun Cymraeg deddfwriaeth. Felly, dylai "bernir" fod wedi'i ddefnyddio yn y testun Cymraeg i fynegi ystyr "deemed".

12. Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol

Yn Atodlen 2, ym mharagraff 9, mae'r pennawd yn cyfeirio at y "Gofyniad i gario a dangos y drwydded" fel un o'r amodau a fydd yn gymwys i bob trwydded. Fodd bynnag, nid yw paragraff 9 ond yn cynnwys gofyniad i ddeiliad y drwydded gario ei drwydded bob amser wrth gasglu cocos o wely cocos.

Nid yw'n ymddangos bod paragraff 9 o Atodlen 2 yn cynnwys gofyniad i ddangos trwydded. Felly, mae'r pennawd yn ddryslyd a gallai fod yn gamarweiniol i ddarllenydd y Gorchymyn.

13. Rheol Sefydlog 21.2(vii) – ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr testun Cymraeg a thestun Saesneg yr offeryn neu'r drafft.

Yn Atodlen 3, ym mharagraff 2(6)(b), mae gwahaniaeth rhwng y testun Cymraeg a'r testun Saesneg. Mae paragraffau (a) a (b) o baragraff 2(6) ill dau'n ceisio cyflwyno diwygiadau i erthygl 8(1) o Orchymyn Cocos a Chregyn Gleision (Ardal Benodedig) (Cymru) 2011.



Yn y testun Saesneg, nid yw'r diwygiad ym mharagraff 2(6)(b) yn llwyddo i nodi'n glir y testun presennol yn erthygl 8(1) i'w ddiwygio oherwydd bod y gair "shellfish" hefyd yn codi yn yr ymadrodd "specified shellfish", sy'n cael ei ddiwygio gan baragraff 2(6)(a).

Yn y testun Cymraeg, mae'r diwygiad a wneir gan baragraff 2(6)(b) yn nodi'n glir y testun presennol i'w ddiwygio drwy ychwanegu rhai geiriau ychwanegol fel ei fod yn nodi "yn lle "y pysgod cregyn **hynny**" rhodder "y cregyn gleision **hynny**". Mae hyn yn ddigonol i nodi'r testun presennol yn erthygl 8(1) a ddiwygir gan baragraff 2(6)(b) o Atodlen 3, ac i'w wahaniaethu oddi wrth y testun a ddiwygir gan baragraff 2(6)(a) o'r Atodlen honno.

14. Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol

Yn Atodlen 3, ym mharagraff 3(3), mae'r diwygiad yn mewnosod brawddeg newydd sy'n cynnwys cyfeiriad at y Gorchymyn hwn ar ddiwedd Is-ddeddf 13 o Is-ddeddfau cyn-Bwyllgor Pysgodfeydd Môr Gogledd-orllewin Lloegr a Gogledd Cymru.

Fodd bynnag, mae teitl y Gorchymyn wedi'i nodi'n anghywir yn y mewnosodiad newydd gan fod y gair "**Fishing**" ar goll. Dylid ei nodi fel "the Cockle **Fishing** Management and Permitting (Specified Area) (Wales) Order 2024".

15. Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol

Yn Atodlen 3, ym mharagraff 3(4), gwneir cyfres o ddiwygiadau i hepgor unrhyw gyfeiriadau at "cockle" ac ymadroddion lle y'i defnyddir o Is-ddeddf 13A o Is-ddeddfau cyn-Bwyllgor Pysgodfeydd Môr Gogledd-orllewin Lloegr a Gogledd Cymru.

Mae'r diwygiad a wneir gan baragraff 3(4)(c) yn hepgor cyfeiriad at "cockle or" o baragraff 2 o Is-ddeddf 13A yn yr Is-ddeddfau hynny. Fodd bynnag, mae cyfeiriad hefyd at "cockle or" ym mharagraff 3 o Is-ddeddf 13A yn yr Is-ddeddfau hynny na chaiff ei hepgor yn dilyn y diwygiadau hyn. Felly, nid yw'r diwygiadau hyn wedi llwyddo i gael gwared ar yr holl gyfeiriadau at "cockle" o Is-ddeddf 13A o'r Is-ddeddfau hynny.

16. Rheol Sefydlog 21.2(vii) – ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr testun Cymraeg a thestun Saesneg yr offeryn neu'r drafft.

Yn Atodlen 3, ym mharagraff 6(1), mae gwahaniaeth rhwng y testun Cymraeg a'r testun Saesneg. Yn y testun Saesneg, mae'n nodi bod "The Byelaws of the former South Wales Sea Fisheries Committee" wedi eu diwygio. Ond mae'r testun Cymraeg yn dweud bod "Is-ddeddfau cyn-Bwyllgor Pysgodfeydd Môr Gogledd-orllewin Lloegr a Gogledd Cymru" wedi eu diwygio fel a ganlyn.

17. Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol

Yn y Gorchymyn hwn, mae'r ferf "will" i'w chael mewn sawl darpariaeth yn y testun Saesneg ond nid yw'n glir a yw'n cael ei defnyddio i gyfeirio at y dyfodol neu i osod rhwymedigaeth. Er



enghraifft, yn erthygl 9(4), mae'r testun Saesneg yn dweud "the Welsh Ministers **will** consult with permit holders and other relevant stakeholders before varying or removing additional conditions" (a'r Gymraeg yn dweud "**bydd** Gweinidogion Cymru yn ymgynghori â deiliaid trwydded a rhanddeiliaid perthnasol eraill cyn amrywio neu ddileu amodau ychwanegol").

Hefyd, yn erthygl 16(2), mae'r testun Saesneg yn dweud "Declarations and notifications made under the Order **will** be published on the Welsh Government website and, whenever practicable, declarations **will** be placed in clearly visible locations..." (a'r Gymraeg yn dweud "**Cyhoeddir** datganiadau a hysbysiadau a wneir o dan y Gorchymyn hwn ar wefan Llywodraeth Cymru(1) a, phan fo'n ymarferol, **gosodir** datganiadau mewn lleoliadau amlwg...").

Os yw'r darpariaethau hyn yn gosod rhwymedigaethau, dylent ddefnyddio ymadrodd fel "rheid" yn y Gymraeg a "must" yn y Saesneg neu efallai "maent i" yn y Gymraeg ac "are to be" yn y Saesneg – gweler canllawiau drafftio Llywodraeth Cymru, Drafftio Deddfau i Gymru 3.14(4) a (5).

Yn ogystal, mae enghreifftiau eraill o ddefnyddio "will" yn nhestun Saesneg y Gorchymyn megis yn erthygl 12(1)(b) ac (c) ("bydd" yn y Gymraeg) lle mae hefyd yn aneglur a yw'n cael ei ddefnyddio fel amser dyfodol, rhwymedigaeth neu ddatganiad.

Rhinweddau: craffu

Nodwyd y tri phwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

18. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd

Nodwn y torrwyd y confensiwn 21 diwrnod (h.y. y confensiwn y dylai 21 diwrnod fynd heibio rhwng y dyddiad y gosodir offeryn "gwneud negyddol" gerbron y Senedd a'r dyddiad y daw'r offeryn i rym), a'r esboniad am dorri'r confensiwn a gynigiodd Huw Irranca-Davies AS a'r Ysgrifennydd Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig mewn llythyr at y Llywydd ar 26 Mehefin 2024.

Yn benodol, nodwn y paragraffau a ganlyn:

"Mae pysgodfeydd cocos cyhoeddus yng Nghymru wedi cael eu rheoli gan Lywodraeth Cymru ers diddymu'r hen Bwyllgorau Pysgodfeydd Môr yn 2010. Amcangyfrifir bod gwerth gwerthiant cyntaf y pysgodfeydd hyn rhwng £3M a £10M y flwyddyn. Maent yn cefnogi tua 350 o gasglwyr â llaw masnachol a 50 o weithwyr mewn gweithfeydd prosesu.

Bydd Gorchymyn Rheoli Pysgota a Thrwyddedu Cocos (Ardal Benodedig) (Cymru) 2024 yn cyflwyno'r mesurau canlynol i warchod stociau cocos a sicrhau cynaliadwydd y bysgodfa:

a) Trwydded gocos Cymru gyfan i gasglu ar unrhyw wely cocos o fewn ardal benodol.



- b) Cynnal gwiriadau cymhwysedd unffurf ar gyfer ceisiadau am drwydded cocos
- c) Codi ffi flynyddol am drwyddedau cocos
- d) Atodi nifer o amodau trwydded gyffredinol i bob trwydded cocos
- e) Gwneud darpariaeth i ganiatáu ar gyfer amodau lleol ychwanegol sy'n benodol i bysgodfeydd unigol a enwir at ddibenion rheoli pysgodfa gocos addasol. Bydd unrhyw amodau ychwanegol hefyd ynghlwm wrth yr holl drwyddedau.
- f) Safoni'r lwfans hamdden personol dyddiol yn yr ardaloedd benodedig.

Cymerodd mwy o amser na'r disgwyl i gwblhau'r Gorchymyn i sicrhau bod y Gorchymyn yn cyflawni'r newidiadau angenrheidiol i sefydlu'r system drwyddedu newydd. Credir bod torri'r confensiwn yn angenrheidiol ac y gellir ei gyfiawnhau er mwyn osgoi gohirio agor Pysgodfa Tair Afon er mwyn sicrhau nad yw casglwyr cocos yn colli incwm gwerthfawr. Byddai unrhyw oedi cyn agor y bysgodfa ar 17 Gorffennaf yn cosbi'r casglwyr cocos hynny sy'n dibynnu ar yr incwm hwn yn unig ac a allai arwain at 'farw' cocos wrth i dymheredd yr haf godi."

19. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd

Rydym yn nodi o'r Memorandwm Esboniadol y lansiwyd ymgynghoriad cyhoeddus 12 wythnos ar gynigion ar gyfer mesurau rheoli pysgodfeydd cocos newydd ar 11 Chwefror 2022, ac y daeth i ben ar 6 Mai 2022.

Mae'r llythyr at y Llywydd dyddiedig 26 Mehefin 2024 yn nodi y cymerodd fwy o amser na'r disgwyl i gwblhau'r Gorchymyn i sicrhau bod y Gorchymyn yn cyflawni'r newidiadau angenrheidiol i sefydlu'r system drwyddedu newydd.

A oes modd rhoi eglurhad ynghylch y cyfiawnhad dros yr oedi rhwng yr ymgynghoriad yn 2022 a gosod y Gorchymyn ym mis Mehefin 2024?

20. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd

Yr ardal benodedig yw'r ardal a ddisgrifir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn. Mae'r Memorandwm Esboniadol ym mharagraff 4.3 a 4.4 yn nodi "Rhoddir mapiau o'r ardal benodedig i ddeiliaid trwydded pan gyflwynir trwyddedau i ddeiliaid trwydded o dan y Gorchymyn. Mae rhaglen o waith yn mynd rhagddo i lunio mapiau newydd o'r ardal benodedig. Bydd y mapiau diwygiedig ar gael ar www.GOV.WALES pan fydd y Gorchymyn yn dod i rym." Byddai'n ddefnyddiol i'r darllenydd gael ei gyfeirio at y mapiau o'r ardal benodedig yn y Gorchymyn hwn.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru i'r holl bwyntiau adrodd.



Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn yn ei gyfarfod ar 16 Gorffennaf 2024 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd uchod.



Senedd Cymru

Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

—

Welsh Parliament

Legislation, Justice and Constitution Committee